# RHAN 4.5 - RHEOLAU GWEITHDREFN CRAFFU

## 1. BETH FYDD NIFER Y PWYLLGORAU CRAFFU A’R TREFNIADAU AR EU CYFER?

Bydd gan y Cyngor Bwyllgorau Craffu sydd â'r aelodaeth, y pwerau a’r amodau gorchwyl a nodir yn Erthygl 6.

## 2. PWY ALL EISTEDD AR BWYLLGORAU CRAFFU?

Caiff pob Cynghorydd ac eithrio aelodau’r Cabinet fod yn aelodau o Bwyllgor Craffu. Ond ni chaiff unrhyw aelod ymwneud â chraffu ar benderfyniad y mae ef/hi wedi bod â chysylltiad uniongyrchol ag ef.

## 3. AELODAU CYFETHOLEDIG HEB BLEIDLAIS

Bydd gan bob Pwyllgor Craffu hawl i argymell i’r Cyngor benodi nifer o bobl yn aelodau cyfetholedig heb bleidlais, os bernir bod hynny’n briodol. Dylai aelodau cyfetholedig allu cynrychioli buddiannau'r rhai sy'n derbyn y gwasanaethau sydd oddi mewn i gylch gorchwyl pwyllgor craffu, neu gyfrannu gwybodaeth a sgiliau arbenigol a fydd yn cryfhau'r broses graffu. Ni ddylai nifer yr aelodau cyfetholedig ar bwyllgor craffu fod yn fwy na thraean o gyfanswm aelodaeth y pwyllgor.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod prosesau recriwtio yng nghyswllt cyfetholedigion, boed hynny ar sail unigol neu gynrychioliadol, yn gynhwysol ac yn deg, er mwyn annog pobl sydd ag amrywiaeth eang o wybodaeth a phrofiad i fod yn rhan o weithgaredd craffu.

Gellir penodi aelodau cyfetholedig fel a ganlyn:

i) Am oes pwyllgor;

ii) Hyd nes bod y Cyngor yn penderfynu dod â'r penodiad i ben; neu

iii) At ddiben adolygiad penodol neu ymarferiad monitro perfformiad.

## 4. CYNRYCHIOLWYR ADDYSG SYDD Â PHLEIDLAIS

Bydd pob Pwyllgor Craffu perthnasol sy’n ymdrin â materion addysg yn cynnwys o fewn ei aelodaeth y cynrychiolwyr canlynol sydd â phleidlais:

(a) un cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru;

(b) un cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig;

(c) tri chynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr.

Ystyr Pwyllgor Craffu perthnasol yn y paragraff hwn yw pwyllgor craffu awdurdod addysg lleol, lle mae swyddogaethau’r pwyllgor yn ymwneud yn gyfan gwbl neu’n rhannol ag unrhyw swyddogaethau addysg sy’n gyfrifoldeb gweithrediaeth yr Awdurdod. Os bydd y Pwyllgor Craffu yn delio â materion eraill, ni chaiff y cynrychiolwyr hyn bleidleisio ar y materion eraill hynny, er y cânt aros yn y cyfarfod a bod yn rhan o'r drafodaeth.

## 5. CYFARFODYDD PWYLLGORAU CRAFFU

Cynhelir o leiaf 6 o gyfarfodydd cyffredin o bob Pwyllgor Craffu bob blwyddyn. Ar ben hynny, gellir cynnull cyfarfodydd anghyffredin o bryd i'w gilydd pan fydd hynny'n briodol, yn dilyn cytundeb y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y pwyllgor dan sylw.

## 6. LLEOLIADAU

Bydd Pwyllgorau Craffu fel arfer yn cwrdd yn un o swyddfeydd gweinyddol y Cyngor, ond o bryd i'w gilydd byddant yn cwrdd mewn cyfleusterau cymunedol priodol.

## 7. CWORWM

Bydd y cworwm ar gyfer pwyllgor craffu yn drydedd ran o'r Aelodau wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan nesaf i fyny.

## 8. PWY SY'N CADEIRIO CYFARFODYDD PWYLLGORAU CRAFFU?

Tynnir Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu o blith y Cynghorwyr sy'n eistedd ar y pwyllgor, ac fe'u penodir gan y cyngor yn ei gyfarfod blynyddol, yn unol â'r weithdrefn a nodir yn rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

## 9. BLAENGYNLLUN GWAITH

Cyn belled ag y cydgysylltir yr ymarferiad yn gyffredinol gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, er mwyn osgoi dyblygu adnoddau, bydd y Pwyllgorau Craffu yn gyfrifol am bennu eu blaengynllun gwaith eu hunain. Cyn datblygu eu blaengynllun gwaith, bydd Pwyllgorau Craffu yn ceisio barn y cyhoedd ynghylch pynciau y gellid eu hystyried yn rhan o'u gwaith. Anfonir copïau o'r blaengynlluniau gwaith terfynol at y sector cyhoeddus a phartneriaid perthnasol eraill.

Bydd y blaengynllun ei hun hefyd yn destun adolygiad parhaus yn ystod y flwyddyn wrth i amgylchiadau newid. Bydd blaengynlluniau gwaith wedi eu diweddaru yn cael eu darparu ar wefan y Cyngor ar hyd blwyddyn y cyngor.

## 10. EITEMAU AR YR AGENDA

(1) Gall unrhyw aelod o Bwyllgor Craffu, rhwng cyfarfodydd, sicrhau bod unrhyw fater sy'n berthnasol i faes gorchwyl eu Pwyllgor yn cael ei roi ar yr agenda a'i drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor hwnnw drwy gyflwyno cais ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr gan ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol. Ar ôl derbyn cais o'r fath bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys ar yr agenda nesaf briodol.

(2) Mewn cyfarfod o Bwyllgor Craffu gall unrhyw aelod wneud cais, o dan yr eitem "Eitemau ar gyfer y Dyfodol" ar yr agenda, am osod eitem i'w hystyried ar agenda'r cyfarfod nesaf. Wedyn bydd y pwyllgor yn ystyried rhesymeg yr aelod dros wneud y cais ac yn penderfynu:

(i) cymeradwyo neu beidio â chaniatáu'r cais

(ii) bod angen gwybodaeth ychwanegol arnynt cyn ystyried y cais

(3) Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd wneud cais am osod eitem sy'n berthnasol i gylch gorchwyl Pwyllgor Craffu ar yr agenda. Bydd angen cyflwyno cais ffurfiol i Uned Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor erbyn 10 a.m. 7 diwrnod gwaith clir cyn dyddiad cyfarfod y Pwyllgor (h.y. nid yw diwrnod clir yn cynnwys y diwrnod dderbyniwyd y cwestiwn na diwrnod y cyfarfod). Bydd y cais hwn yn amlinellu natur yr eitem, a pham y dylid ei hystyried mewn Pwyllgor Craffu. Bydd hawl gan y person sy'n cyflwyno'r cais i gyflwyno'r achos yn bersonol. Bydd y cais hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael. Wedyn bydd y Pwyllgor yn penderfynu a yw'r cais i gael ei gymeradwyo a'i gynnwys ar agenda cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol, neu a ddylid gwrthod y cais. Rhoddir adborth ar benderfyniad y pwyllgor ynghylch y cais a chanlyniad unrhyw drafodaeth yn y Pwyllgor Craffu i'r person sy'n cyflwyno'r cais.

(4) Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd, os yw'n byw yn y Sir, yn berchen ar fusnes yn y Sir neu'n cael ei gyflogi gan y Sir, holi cwestiynau i'r Pwyllgor Craffu yn ystod ei gyfarfodydd cyffredin yn amodol ar roi rhybudd am y cwestiwn drwy ei gyflwyno'n ysgrifenedig neu drwy bost electronig i Uned Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor erbyn 10 a.m. 7 diwrnod gwaith clir cyn dyddiad cyfarfod y Pwyllgor (h.y. nid yw diwrnod clir yn cynnwys y diwrnod dderbyniwyd y cwestiwn na diwrnod y cyfarfod) a bod y cwestiwn yn ymwneud â mater y mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol amdano, neu sy'n effeithio ar y Sir a'i fod o fewn cylch gwaith y pwyllgor. Mae'n rhaid i bob cwestiwn gynnwys enw a chyfeiriad y sawl sy'n holi'r cwestiwn. Bydd y Cadeirydd yn gwahodd y sawl sy'n holi'r cwestiwn i gyflwyno'r cwestiwn i'r Pwyllgor. Os nad yw'r sawl sydd wedi cyflwyno cwestiwn yn ysgrifenedig yn gallu bod yn bresennol, gallai holi'r Cadeirydd i gyflwyno'r cwestiwn ar ei ran, yn hynny o beth gallai'r Cadeirydd holi'r cwestiwn ar ran y sawl sy'n holi, nodi y bydd ateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu, neu benderfynu, yn sgil absenoldeb y sawl sy'n holi'r cwestiwn, na fydd y Pwyllgor yn ymdrin â'r cwestiwn.

## 11. ADRODDIADAU GAN BWYLLGORAU CRAFFU

Unwaith y bydd wedi llunio argymhellion ar gynigion sydd i'w hadolygu, bydd Pwyllgor Craffu yn paratoi adroddiad ffurfiol ac yn ei gyflwyno i'r Prif Weithredwr ar gyfer ystyriaeth gan y Cabinet.

## 12. CYFLWYNO ADRODDIADAU GRŴP GORCHWYL A GORFFEN

Cyflwynir adroddiadau interim a therfynol Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan Gadeirydd y Grŵp i'r Pwyllgor Craffu ar gyfer ystyriaeth.

Bydd yr adroddiad terfynol yn cyflwyno ei argymhellion yn nhrefn cyflawnadwyedd, gyda'r goblygiadau cysylltiedig o ran costau, h.y.:

- Beth y gellid ei roi ar waith ar unwaith neu yn y dyfodol agos iawn heb fawr ddim costau neu ddim costau o gwbl
- Beth gellid ei roi ar waith yn y tymor canolig
- Nodau tymor hir

Byddai'r argymhellion hefyd yn nodi'r Swyddogion Arweiniol/Cyfrifol am roi'r argymhellion tymor byr/di-oed ar waith, ac am lunio a gweithredu rhaglen ar gyfer yr argymhellion tymor canolig/hir.

Ar ôl mabwysiadu adroddiad terfynol y Grŵp ac unrhyw newidiadau pellach neu argymhellion ychwanegol y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Craffu, bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno yn y lle cyntaf gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu i Aelodau'r Cabinet ar gyfer trafodaeth anffurfiol. Bydd y Cadeirydd yn rhoi trosolwg o'r dasg yr ymgymerwyd â hi gan y grŵp a'i ganfyddiadau, a gall yr Aelodau o'r Cabinet ddarparu syniad ynghylch unrhyw farn ychwanegol a all fod ganddynt ynghylch canfyddiadau'r adroddiad. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Cadeirydd a'r Swyddogion cynorthwyol gasglu gwybodaeth ychwanegol cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Cabinet ar gyfer ystyriaeth.

Yn y cyfarfod ffurfiol o'r Cabinet bydd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu yn cyflwyno'r adroddiad terfynol yn ffurfiol at sylw'r Cabinet ac yn rhoi trosolwg i aelodau'r Cabinet o'r dasg yr ymgymerwyd â hi, disgrifiad byr o'r broses a ddilynwyd a'r canfyddiadau.

Wedyn bydd Aelodau'r Cabinet yn cael cyfle i holi'r Cadeirydd ynghylch canfyddiadau'r adroddiad ac ystyried yr argymhellion sy'n cael eu rhoi gerbron ar gyfer eu hystyried.

## 13. ADRODD AM BENDERFYNIADAU'R CABINET A'R CYNGOR

Ar ôl ystyried adroddiad ac argymhellion Pwyllgor Craffu, bydd penderfyniad y Cabinet yn cael ei adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu.

Os na fabwysiedir unrhyw argymhellion a gyflwynwyd gan Bwyllgor Craffu, dylai'r Cabinet gofnodi'r rhesymau am hynny.

## 14. HAWLIAU AELODAU PWYLLGORAU CRAFFU I DDOGFENNAU

Yn ychwanegol at eu hawliau fel Cynghorwyr, mae gan aelodau pwyllgorau craffu yr hawl ychwanegol i ddogfennau, ac i rybudd o gyfarfodydd fel y nodir yn y Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

Wrth ymdrin â materion trosedd ac anhrefn, mae gan Bwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio hawl i wybodaeth gan Awdurdodau sydd â Chyfrifoldeb a phobl a chyrff sy'n cydweithredu (fel y diffinnir gan Adran 5 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998) ar ôl cyflwyno cais ysgrifenedig. Bydd y wybodaeth a ddarperir fel arfer yn amhersonol ac ni fydd yn cynnwys gwybodaeth sy'n debygol o niweidio achosion cyfreithiol neu weithrediadau yn awr neu yn y dyfodol.

## 15. AELODAU A SWYDDOGION YN RHOI CYFRIF

(a) Gall unrhyw Bwyllgor Craffu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd a'u hadolygu yng nghyswllt cyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor a/neu'r Cabinet. Yn ogystal ag adolygu dogfennaeth, wrth gyflawni'r swyddogaeth graffu, gall ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod o'r Cabinet, Pennaeth y Gwasanaeth Taledig, a/neu unrhyw gyfarwyddwr a/neu bennaeth gwasanaeth ddod o'i flaen i ddarparu eglurhad pellach ynghylch unrhyw faterion o fewn eu cylch gorchwyl:

i) unrhyw benderfyniad neu gyfres o benderfyniadau arbennig; a/neu
ii) i ba raddau y mae'r camau a gymerwyd yn gweithredu polisi'r Cyngor; a/neu
iii) eu perfformiad;

a dyletswydd y personau hynny yw mynychu os bydd gofyn.

(b) Lle bo gofyn i unrhyw aelod neu swyddog fynychu Pwyllgor Craffu o dan y ddarpariaeth hon, bydd Cadeirydd y pwyllgor hwnnw yn hysbysu'r Prif Weithredwr, a fydd yn hysbysu'r aelod neu'r swyddog yn ysgrifenedig gan roi o leiaf 15 diwrnod gwaith o rybudd o'r cyfarfod y mae gofyn ei fod/bod yn ei fynychu. Bydd y rhybudd yn nodi natur yr eitem y mae angen iddo/iddi fynychu yn ei chylch i roi cyfrif ac a oes angen cynhyrchu unrhyw bapurau ar gyfer y pwyllgor. Lle bydd y cyfrif sydd i'w roi i'r pwyllgor yn golygu bod rhaid cynhyrchu adroddiad, bydd yr aelod neu'r swyddog dan sylw yn cael 15 diwrnod gwaith ychwanegol i ganiatáu ar gyfer paratoi'r ddogfennaeth honno.

(c) Lle na all yr aelod neu'r swyddog, mewn amgylchiadau eithriadol, fod yn bresennol ar y dyddiad gofynnol, rhaid i'r pwyllgor craffu, drwy ymgynghori â'r aelod neu'r swyddog, drefnu dyddiad cyfleus arall iddynt fod yn bresennol.

## 16. PRESENOLDEB SWYDDOGION YNG NGHYFARFODYDD PWYLLGORAU CRAFFU

Nid yw'n ofynnol i Gyfarwyddwyr na Phenaethiaid Gwasanaeth fynychu cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu fel mater o drefn. Fodd bynnag, bydd disgwyl i Benaethiaid Gwasanaeth a/neu swyddogion perthnasol eraill, y gofynnwyd iddynt fod yn bresennol gan y Cadeirydd, neu sydd wedi cynhyrchu deunyddiau i'w hystyried gan y Pwyllgor, fod yn bresennol.

Unwaith mae eitem busnes Swyddog wedi cael ei hystyried gan y pwyllgor fe fydd, gyda chytundeb y Cadeirydd, yn gadael y cyfarfod.

## 17. PRESENOLDEB AELODAU O’R CABINET YNG NGHYFARFODYDD PWYLLGORAU CRAFFU

Nid yw'n ofynnol i Aelodau'r Cabinet fynychu cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu fel mater o drefn.

Fel arfer bydd disgwyl i Aelodau'r Cabinet fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu, fel y gellir craffu ar eu portffolios mewn perthynas â’r penderfyniadau a wneir. Bydd Aelodau’r Cabinet yn cyflwyno adroddiadau ac yn ateb cwestiynau ynghylch y penderfyniadau arfaethedig sydd wedi’u cynnwys yn y Blaengynllun Gwaith/ar yr agenda. Gall yr Aelod o’r Cabinet alw ar swyddogion i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar faterion gweithredol.

Anogir Aelodau’r Cabinet i fanteisio ar bob cyfle yn y cyfarfodydd Craffu i glywed sylwadau’r rhai nad ydynt yn Aelodau o’r Cabinet ar unrhyw faterion sydd o fewn eu cylch gwaith. Bydd perthynas waith agos a mynegi barn yn agored o bwysigrwydd penodol i’r Aelod o’r Cabinet, Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, ac Aelodau’r Pwyllgor Craffu, lle rhoddir ystyriaeth i ddatblygiad cyllideb y Cyngor neu’r fframwaith polisi.

## 18. CYFRANNU I BWYLLGORAU CRAFFU

Gall pwyllgor craffu wahodd aelodau o'r cyhoedd neu gynrychiolwyr o gyrff eraill i’w annerch ac i drafod materion o bryder lleol a/neu ateb cwestiynau.

Gall aelod o'r cyhoedd hefyd wneud cais am gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu lafar i Bwyllgor Craffu, Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu neu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Pwyllgor Craffu er mwyn cefnogi pwnc neu adolygiad craffu neu gais am Alw-i-mewn (gweler Erthygl 6.6 Gweithdrefnau Galw-i-mewn).

Bydd angen cyflwyno cais ffurfiol i Uned Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor erbyn saith niwrnod gwaith o leiaf cyn dyddiad cyfarfod y Pwyllgor. Bydd y cais hwn yn amlinellu natur a phwrpas y dystiolaeth sydd i'w chyflwyno yn y cyfarfod.

Gall y Cadeirydd, ar y cyd â'r Swyddog Monitro, benderfynu gwrthod cais os bernir y gallai fod yn flinderus, yn gamwahaniaethol, yn amhriodol neu'n afresymol. Cyfleir y cyfiawnhad dros wrthod i'r sawl a wnaeth y cais.

Bydd y Cadeirydd yn neilltuo amser ar yr agenda ar gyfer tystiolaeth lafar gan yr aelod o'r cyhoedd. Bydd disgresiwn gan y Cadeirydd i atal siaradwr ar unrhyw adeg os bydd, ym marn y Cadeirydd, yn gwneud sylwadau sydd, neu sy'n ymddangos, yn ddifenwol, yn flinderus, yn gamwahaniaethol neu'n dramgwyddus.

Lle cyflwynwyd tystiolaeth, cyflëir canlyniad y ddadl neu'r adolygiad craffu i'r unigolyn dan sylw.

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen am gefnogi cyfranogwyr a wahoddir i fynychu Pwyllgorau Craffu a Grwpiau Gorchwyl a Gorffen Craffu a'r cyfraniad gwerthfawr a wnânt i'r broses graffu.

Lluniwyd Siarter a Chanllawiau ar gyfer Cyfranogwyr, felly, sy'n nodi'r canlynol:

- yr hyn y gall cyfranogwyr ei ddisgwyl pan fyddant yn mynd i gyfarfod Pwyllgor Craffu neu Grŵp Gorchwyl a Gorffen;
- pa gamau a gymerir i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyfranogwyr ynghylch y weithdrefn; a'r
- hyn a ddisgwylir gan gyfranogwyr drwy gydol y broses graffu y maent yn ymwneud â hi.

## 19. GALW-I-MEWN

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer galw-i-mewn wedi'u nodi yn Erthygl 6.6 o Ran 2 o'r Cyfansoddiad hwn.

## 20. GWAHARDD PLEIDLAIS DRWY CHWIP A DATGAN CHWIPIAU PLEIDIAU

Wrth ystyried unrhyw fater lle mae aelod o bwyllgor craffu yn ddarostyngedig i chwip plaid, rhaid i'r aelod ddatgan presenoldeb y chwip a'i natur, cyn dechrau trafodaethau'r pwyllgor ar y mater. Bydd y datganiad, a manylion y trefniadau chwipio, yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod.

Ni chaniateir i aelod o Bwyllgor Craffu bleidleisio ar unrhyw fater os yw ef neu hi yn ddarostyngedig i chwip plaid yng nghyswllt y mater hwnnw. Os bydd effaith sylweddol ar benderfyniad a wnaed wedi i chwip plaid gael ei datgan, dylid ymdrin ag ef fel petai heb ei wneud.

## 21. GWEITHDREFN CYFARFODYDD PWYLLGORAU CRAFFU

(a) Rhaid i Bwyllgorau Craffu ystyried y busnes canlynol:

i) Datganiadau o fuddiant;

ii) Datganiadau ynghylch chwipiau pleidiau gwaharddedig;

(iii) Cael ac ystyried Deisebau yn unol â Chynllun Deisebau'r Cyngor

iv) Cael rhybudd am gwestiynau gan y cyhoedd, a darparu atebion ar eu cyfer (yn unol â 10(4) uchod;

iv) Ystyried unrhyw fater a gyfeiriwyd at y pwyllgor ar gyfer penderfyniad yng nghyswllt galw-i-mewn unrhyw benderfyniad neu faterion eraill a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan aelodau o'r cyhoedd a thrwy broses Galwad i Weithredu gan Gynghorydd ac atgyfeiriad Trosedd ac Anhrefn Lleol;

v) Ymatebion y Cabinet i adroddiadau a cheisiadau'r pwyllgor craffu bob chwarter;

vi) Eitemau ar gyfer y Dyfodol;

vii) Y busnes a gyflwynwyd fel arall ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod;

viii Cofnodion y cyfarfod diwethaf.

(b) Lle bo Pwyllgor Craffu yn cynnal adolygiadau neu yn ystyried materion eraill, gall y pwyllgor wahodd unigolion, cynrychiolwyr sefydliadau partner allweddol neu gyrff allanol eraill i fod yn bresennol a rhoi tystiolaeth mewn cyfarfodydd pwyllgor. Cynhelir holl gyfarfodydd y pwyllgorau yn unol â'r egwyddorion canlynol:

i) bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal yn deg, gyda holl aelodau'r pwyllgor yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i'r rhai sy'n mynychu, a chyfrannu a siarad;

ii) bydd y rhai hynny sy'n cynorthwyo'r pwyllgor drwy roi tystiolaeth yn cael eu trin â pharch a chwrteisi; a

iii) bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod y broses mor effeithlon â phosibl.

(c) Yn dilyn unrhyw adolygiad, bydd y pwyllgor yn paratoi adroddiad byr, i'w gyflwyno i'r Cabinet a/neu'r Cyngor fel y bo'n briodol a rhaid iddo gyhoeddi ei adroddiad a'i ganfyddiadau.

## 22. MATERION SYDD O FEWN CYLCH GORCHWYL MWY NAG UN PWYLLGOR CRAFFU

Lle bo mater i'w ystyried gan bwyllgor craffu yn dod o fewn cylch gorchwyl un neu fwy o bwyllgorau craffu eraill hefyd, gwneir y penderfyniad ynghylch pa bwyllgor craffu a fydd yn ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, lle bo'r Prif Weithredwr yn barnu bod hynny'n briodol.

## 23. CYFEIRIADAU AT Y CABINET, AELODAU'R CABINET A PHWYLLGORAU CRAFFU ERAILL

Ni ddylid gwneud y rhain ac eithrio:

- os yw'r pwyllgor yn argymell y dylid newid y polisi presennol;
- os yw'r pwyllgor yn argymell y dylid cyflwyno polisi newydd;
- os yw'r pwyllgor yn tynnu sylw at feysydd risg newydd.

Ochr yn ochr â phob argymhelliad, dylid cyflwyno manylion y goblygiadau perthnasol, e.e. o ran polisi, materion cyfreithiol, cyllid, adnoddau dynol ac ati.

## 24. GALWAD I WEITHREDU GAN GYNGHORYDD AC ATGYFEIRIAD TROSEDD AC ANHREFN LLEOL

Gall unrhyw aelod gyfeirio mater llywodraeth leol neu drosedd ac anhrefn nad yw wedi ei ddatrys trwy ddilyn unrhyw lwybr arall at y Pwyllgor Craffu perthnasol trwy'r weithdrefn Galwad i Weithredu gan Gynghorydd ac Atgyfeiriad Trosedd ac Anhrefn Lleol. Cyflwynir y weithdrefn ar gyfer y rhain yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad hwn.

## 25. PETITIONS

Bydd deisebau dilys yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn unol â Rheol Gweithdrefn Corfforaethol 10B a Chynllun Deisebau'r Cyngor.

Bydd y Deisebydd yn cael ei wahodd i gyflwyno'r ddeiseb yn ffurfiol i'r Pwyllgor Craffu. Bydd cyflwyniad y Deisebydd yn gyfyngedig i ddim mwy na phum munud, a bydd yn gyfyngedig i ddarllen neu grynhoi'r hyn mae'r ddeiseb yn ei geisio, nodi nifer a disgrifiad y llofnodwyr, a gwneud y cyfryw sylwadau ategol pellach i'r ddeiseb ag y bydd y person sy'n ei chyflwyno yn credu yn briodol. Bydd y Pwyllgor Craffu yn gallu gofyn cwestiynau i'r Deisebydd ar y ddeiseb. Ni fydd yr Aelod Cabinet yn ymateb i'r ddeiseb yn y Cyfarfod Craffu. Os nad yw'r prif ddeisebydd yn gallu bod yn bresennol i gyflwyno'r ddeiseb, bydd y Cadeirydd yn ei darllen. Os yw'r ddeiseb yn effeithio ar un ward yn unig, yna gall y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, wahodd yr aelod/aelodau lleol ar gyfer y ward honno i'r cyfarfod i siarad o blaid neu yn erbyn y ddeiseb. Ni fydd gan yr aelodau lleol hawl i bleidleisio ar y ddeiseb a dim ond unwaith y gallant siarad.

**Nid oes gan Bwyllgorau Craffu bwerau gwneud penderfyniadau; fodd bynnag, byddant yn trafod y mater ac yn penderfynu pa gamau i'w cymryd o ganlyniad.**

**Gall y Pwyllgor Craffu fel rhan o ystyried y ddeiseb, benderfynu :-**

i) gofyn i swyddogion ddarparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â chynnwys y ddeiseb. Mewn achosion o'r fath bydd y ddeiseb yn cael ei gohirio ac yn cael ei chlywed ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu priodol. Gall y deisebydd fynychu ond ni fydd yn gallu gwneud sylwadau pellach.

ii) penderfynu gwella'r ddeiseb yn eu hatgyfeiriad, trwy ychwanegu argymhellion.

iii) penderfynu craffu ar y pwnc yn y dyfodol, trwy ei gynnwys yn eu blaenraglen waith

iv) peidio â chymryd unrhyw gamau pellach.

**Yn dilyn y ddadl, gall y Pwyllgor Craffu gyfeirio'r ddeiseb a'i hargymhellion i'r:-**

a) Cyngor Llawn i'w hystyried (os yw'n un o swyddogaethau'r Cyngor)

b) Cabinet i'w hystyried (os yw'n swyddogaeth weithredol)

c) Aelod Cabinet perthnasol gyda chais i ymateb yn ysgrifenedig i'r Pwyllgor Craffu a'r Prif Ddeisebydd o fewn 8 wythnos.

d) Cyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth i ymateb.

Bydd barn y Pwyllgor Craffu yn cael ei chyflwyno mewn adroddiad i'r corff priodol, gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu, nid oes gan y deisebydd yr hawl i ailgyflwyno'r ddeiseb i fforwm arall.